

CC18 - Defnyddio Neuaddau Eglwysi ar gyfer Neuadd Bentref a Dibenion Elusennol Eraill

(Version 07/01)

Cynnwys	Tudalen
Am beth mae'r canllaw hwn?	2
Ystyr geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir	2
Rhan I: Neuaddau eglwysi sydd eu hangen at ddefnydd yr eglwys a defnyddiau elusennol eraill	4
Pryd gall neuadd eglwys gael ei defnyddio ar gyfer dibenion elusennol eraill?	4
Sut y gellir newid defnydd?	5
Beth fydd Cynllun yn ei wneud?	6
Sut mae'r elusen neuadd eglwys yn elwa o roi prydles i elusen an-eglwysig?	7
Pa ddarpariaethau ddylai prydles eu cynnwys?	8
Pa mor hir ddylai'r brydles bara?	9
A oes unrhyw amodau arbennig pan fydd dalwyr prydles yn ymgymryd â gwaith adeiladu?	9
Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y brydles?	10
Beth yw'r berthynas rhwng ymddiriedolwyr y neuadd eglwys a'r daliwr prydles?	11
Rhan II: Neuaddau eglwysi nad oes mo'u hangen mwyach ar gyfer dibenion eglwysig	11
A ddylai'r ymddiriedolwyr werthu neu osod yr eiddo?	11
A oes unrhyw ofynion arbennig?	12
A all yr ymddiriedolwyr werthu neu osod y neuadd i elusen arall am lai na'i gwerth llawn?	12

Am beth mae'r canllaw hwn?

1. Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut y gellir defnyddio neuadd eglwys ar gyfer dibenion elusennol eraill os nad oes mo'i hangen mwyach at ddibenion eglwysig yn unig. Mae hefyd yn esbonio'r dewisiadau sydd gan ymddiriedolwyr os nad oes unrhyw angen i'r eiddo gael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer y dibenion y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio yn wreiddiol.

2. Mae'r canllaw yn ymdrin yn bennaf â sefyllfa neuaddau eglwysi **rhydd-ddaliad**. Os yw'r eiddo yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr y neuadd eglwys dan brydles ac nid oes angen y neuadd mwyach at ddibenion eglwysig, bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried telerau'r brydles. Mae'n bosib y bydd rhaid iddynt hefyd ymgynghori â'r rhydd-ddeiliad ynglŷn ag unrhyw newid yn nefnydd yr adeilad (gweler paragraff 8 isod). Er hynny, gall cynnwys y canllaw hwn fod yn berthnasol o hyd yn yr amgylchiadau hyn.

3. **Nid** yw'r canllaw hwn yn ymwneud â'r defnydd achlysurol o neuadd eglwys ar gyfer dibenion eraill. Fe'i lluniwyd i ddelio â newidiadau mewn defnydd mwy tymor hir.

4. Yn y canllaw hwn:

Ystyr **Deddf 1993** yw Deddf Elusennau 1993.

Ystyr **neuadd eglwys** yw unrhyw adeilad sydd, yn ôl ei ymddiriedolaethau, i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion eglwysig.

Mae **defnydd ar gyfer dibenion eglwysig** yn golygu defnydd ar gyfer unrhyw ddiben sy'n hyrwyddo crefydd, gan gynnwys defnydd gan sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r eglwys. Er enghraifft, defnyddio'r eiddo ar gyfer:

Ystyr geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir

- dathlu Gwasanaeth Dwyfol;
- gweithgareddau efengylaidd;
- dosbarthiadau bedydd;
- gwyliau crefyddol;
- Ysgolion Sul;
- cyfarfodydd clerigwyr; a
- gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau crefyddol (e.e. gwleddoedd priodas).

Gall hefyd gynnwys cyfarfodydd

- y brownis, y cybiaid, y geidiau a'r sgowtiaid; a
- chlybiau a chymdeithasau eglwysig (e.e. Undeb y Mamau).

Ystyr **dogfen lywodraethol** yw unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, y dull o'i gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn drawsgludiad, yn ewyllys neu'n Gynllun gan y Comisiynwyr.

Ystyr **ymddiriedolwyr** yw **ymddiriedolwyr elusennau**. Ymddiriedolwyr elusennau yw'r bobl sy'n gyfrifol, dan ddogfen lywodraethol yr elusen, am reolaeth a gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Mae gan rai elusennau **ymddiriedolwr gwarchodaeth** (neu yn achos Eglwys Loegr, **awdurdod esgobaethol**) ac fe gyfyngir eu swyddogaeth dan y ddogfen lywodraethol i ddal eiddo'r elusen. Nid oes gan yr ymddiriedolwr gwarchodaeth unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau rheolaeth ac mae'n rhaid iddo weithredu yn ôl cyfarwyddyd

Pryd gall neuadd eglwys gael ei defnyddio ar gyfer dibenion elusennol eraill?

cyfreithiol ymddiriedolwyr yr elusen. Yn aml iawn yn Eglwys Loegr, Cyngor yr Eglwys Blwyf fydd ymddiriedolwyr elusen neuadd eglwys a'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol fydd yr awdurdod esgobaethol.

Ystyr **ymddiriedolaethau** elusen yw'r darpariaethau a gynhwysir yn y ddogfen lywodraethol. Os oes tir, ac nid oes unrhyw ddogfen lywodraethol ffurfiol, gall yr ymddiriedolaethau gael eu dehongli o'r modd y cafodd y tir ei ddefnyddio.

Rhan I: Neuaddau eglwysi sydd eu hangen at ddefnydd yr eglwys a defnyddiau elusennol eraill

5. Weithiau gall ymddiriedolwyr neuadd eglwys ganfod:

- nad oes angen y neuadd trwy'r amser ar gyfer dibenion eglwysig, er bod ei hangen ar sail achlysurol a rheolaidd;
- nad oes digon o arian ganddynt i gynnal y neuadd neu ei gwella i safonau derbyniol;
- bod y gymuned angen y neuadd ar gyfer defnydd **elusennol** ychwanegol, nad yw'n cael ei ystyried yn ddiben eglwysig, megis ar gyfer neuadd bentref neu ganolfan ieuencid.

6. Os mai dyma yw'r achos, oni bai fod dogfen lywodraethol yr elusen yn caniatáu defnyddio'r eiddo ar gyfer dibenion an-eglwysig, ni all yr ymddiriedolwyr ganiatáu i'r neuadd gael ei defnyddio ar gyfer diben elusennol arall. Y rheswm am hyn yw oherwydd eu bod yn gaeth i'r ymddiriedolaethau y mae'r neuadd yn cael ei dal arnynt h.y. i'w defnyddio ar gyfer dibenion eglwysig yn unig.

Sut y gellir newid defnydd?

7. Er hynny, os yw'r ymddiriedolwyr yn canfod nad oes unrhyw ddefnydd eglwysig go iawn mwyach ar gyfer yr eiddo mae'n **rhaid** iddynt ystyried gwerthu neu osod y neuadd ar y farchnad agored (gweler Rhan II o'r canllaw hwn).

8. Os yw ymddiriedolwyr neuadd eglwys yn dal **prydles** y neuadd sydd ond yn caniatáu defnyddio'r eiddo fel neuadd eglwys, bydd angen iddynt ystyried:

- trafod amrywiad yn y brydles gyda'r landlord i ganiatáu newid defnydd; neu
- roi'r gorau i'r brydles sy'n bodoli eisoes a thrafod un newydd.

9. Os yw **rhydd-ddaliad** y neuadd yn cael ei ddal gan yr ymddiriedolwyr ar ymddiriedolaeth i'w defnyddio fel neuadd eglwys, bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried a yw'r eiddo yn destun unrhyw gyfamod sy'n cyfyngu ei defnydd. Os yw, mae'n bosib y bydd angen i'r ymddiriedolwyr geisio amrywiad o'r cyfamod.

10. Yn y ddau achos bydd angen i'r ymddiriedolwyr geisio cyngor cyfreithiol ar unrhyw newid yn eu gweithredoedd eiddo.

11. Ar wahân i'r cwestiwn o eiddo, bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried a oes angen ein caniatâd ar gyfer y newid defnydd. Oni bai fod ymddiriedolaethau'r elusen yn rhoi pŵer diwygio i'r ymddiriedolwyr, fel rheol bydd unrhyw newid yn ymddiriedolaethau elusen angen ein sêl bendith ni. Os oes gan ymddiriedolwyr bŵer diwygio, mae'n rhaid i unrhyw newid yn nefnydd neuadd eglwys gael ei weithredu yn unol â'r pŵer hwnnw.

12. Os yw'r neuadd eglwys yn cael ei dal gan yr ymddiriedolwyr dan brydles, gellir gweithredu amrywiad yn nhelerau'r brydles yn unol ag un o'r dewisiadau a nodir ym mharagraff 8, ond mae'n bosib y bydd angen ein cymeradwyaeth ar gyfer yr amrywiad trwy gyfrwng Gorchymyn neu Gynllun, a dylid ymgynghori â ni cyn cymryd unrhyw gamau cyfreithiol terfynol.

13. Os yw'r ymddiriedolwyr yn dal rhydd-ddaliad y neuadd eglwys, bydd rhaid i unrhyw newid yn yr ymddiriedolaethau sy'n nodi defnydd o'r neuadd gael ei wneud trwy Gynllun. Bydd y Cynllun yn awdurdodi ymddiriedolwyr y neuadd eglwys i ganiatáu defnydd ehangach neu roi'r neuadd ar les i elusen briodol arall. Yn achos prydles mae'n bosib y bydd angen ystyried os yw adrannau 36 a 37 o Ddeddf 1993 yn berthnasol i'r weithred neu beidio; mae ein canllaw **Gwerthu Tir Elusennau (CC28)** yn ymdrin â'r adrannau hyn o Ddeddf 1993 yn fanwl. Bydd rhaid i unrhyw brydles ddilyn y telerau a osodwyd ym mharagraffau 20 i 26 isod.

14. Mae'n bwysig nodi na ellir rhoi prydles hyd nes bod Cynllun wedi'i lunio.

15. Yn ogystal â chael ein caniatâd ar gyfer unrhyw brydles neu werthu eiddo, mae'n bosib y bydd angen i ymddiriedolwyr neuadd eglwys gael caniatâd ffurfiol yr awdurdod esgobaethol. Er enghraifft, os yw'r eiddo yn cael ei ddal gan gyngor yr eglwys blwyf dan adran 6(3) Mesur (Pwerau) Cyngor yr Eglwys Blwyf 1956, neu (yn fwy anaml) dan Fesur Periglorion a Wardeniaid Eglwysi (Ymddiriedolaethau) 1964.

16. Bydd y Cynllun yn darparu awdurdod i'r ymddiriedolwyr naill ai caniatáu defnydd helaethach o'r neuadd eglwys neu roi'r eiddo ar les, ar yr amod y bydd y dalwyr prydles yn ei

*Beth fydd Cynllun
yn ei wneud?*

defnyddio ar gyfer y diben elusennol penodol yn unig (er enghraifft, fel neuadd bentref). Fel rheol bydd y Cynllun hefyd yn nodi, lle y bo'n briodol:

- y defnyddiau ychwanegol;
- cyfnod y brydles;
- y rhent sydd i'w dalu;
- y diwrnodau a/neu'r achlysuron y cedwir defnydd o'r eiddo i ymddiriedolwyr y neuadd eglwys heb dâl; a
- sut y bydd y rhent neu daliad arall sy'n ddyladwy i ymddiriedolwyr y neuadd eglwys yn cael eu cymhwyso ganddynt ar gyfer dibenion elusennol eraill.

17. Bydd y Cynllun yn ffurfio rhan o ddogfen lywodraethol yr elusen neuadd eglwys, ond dylai ymddiriedolaethau yr elusen sy'n dal y brydles gael eu hamlinellu mewn dogfen ar wahân (a allai fod yn yr atodiad i'r brydles ei hun).

Sut mae'r elusen neuadd eglwys yn elwa o roi prydles i elusen an-eglwysig?

18. Prif bwrpas rhoi prydles o'r fath (yn hytrach na gwerthu'r eiddo neu ei osod yn llwyr fel buddsoddiad) yw cadw defnydd o'r eiddo ar gyfer dibenion eglwysig ar adegau arbennig. Mae prydles o'r fath hefyd yn cadw'r adeilad yn ddiogel (naill ai drwy gyfamodau cynnal a chadw neu godi rhent priodol) ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol pe byddai ei angen unwaith eto ar gyfer dibenion eglwysig ehangach. Yn y cyfamser, mae'n golygu bod adeilad nad yw'n gallu cael ei gynnal yn iawn neu ei wella i safonau modern gan ymddiriedolwyr y neuadd eglwys yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

*Pa ddarpariaethau ddylai
prydles eu cynnwys?*

19. Dylid rhoi prydles pan nad yw ymddiriedolwyr y neuadd eglwys yn dymuno cadw cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r neuadd neu nid ydynt am fod yn brif ddefnyddiwr mwyach. Mewn achosion eraill gall estyniad syml yn nefnydd yr eiddo fod yn fwy priodol.

20. Fel rheol ddylai prydles:

- gynnwys darpariaethau addas ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo a'r dalwyr prydles yn talu rhent amdano;
- galluogi ymddiriedolwyr y neuadd eglwys i godi'r rhent gorau y gellir yn rhesymol ei gael gan ystyried y defnydd neilltuedig ar gyfer dibenion elusennol a rhwymedigaethau'r dalwyr prydles dan y brydles;
- sicrhau bod ymddiriedolwyr y neuadd eglwys yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r eiddo, yn rhad ac am ddim, ar ddiwrnodau penodol a/neu ar nifer penodol o achlysuron;
- cynnwys cyfamod yn erbyn trosglwyddo'r brydles neu'r dalwyr prydles yn gosod yr eiddo yn rhy rad; a
- darparu i'r dalwyr prydles gael cyfrifoldeb ariannol dros atgyweirio a chynnal a chadw'r neuadd.

21. Dylai ymddiriedolwyr y neuadd eglwys roi cyfarwyddyd clir a sicrhau eu bod yn cymryd cyngor proffesiynol annibynnol gan, er enghraifft, cyfreithwyr a syrfewyr wrth ystyried telerau unrhyw brydles y byddant yn ei rhoi.

Pa mor hir ddylai'r brydles bara?

22. Fel rheol dylai'r brydles bara am gyfnod o ddim mwy na 35 blynedd, gyda dim dewis i adnewyddu. Bydd hyn yn caniatáu i'r dalwyr prydles wneud cais am gymorth grant yr awdurdod lleol i wella neu atgyweirio'r eiddo os oes angen.

23. Os yw'r dalwyr prydles yn bwriadu gwario symiau mawr o arian (swm gormodol ar gyfer prydles 35 blynedd) ar yr eiddo, rydym yn cydnabod ei fod yn rhesymol y dylent fwynhau sicrwydd daliadaeth am gyfnod hwy. Mewn amgylchiadau o'r fath dylai ymddiriedolwyr y neuadd eglwys:

- geisio cyngor proffesiynol ynglŷn â hyd y tymor a roddir mewn unrhyw achos arbennig;
- cymryd i ystyriaeth yr angen i adolygu'r trefniadau o bryd i'w gilydd;
- rhoi gwybod i ni.

A oes unrhyw amodau arbennig os yw'r dalwyr prydles yn ymgymryd â gwaith adeiladu?

24. Os yw'r dalwyr prydles yn ymgymryd â gwaith adeiladu, mae'n bosib na fydd ymddiriedolwyr y neuadd eglwys yn gallu defnyddio'r neuadd, er enghraifft, os yw'r eiddo yn cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu, ei adnewyddu neu ei wella. At hynny, mae'n bosib i'r neuadd gael ei roi ar les ar rent isel yn rhannol oherwydd bod gwaith o'r fath yn mynd i gael ei wneud. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhesymol y dylai ymddiriedolwyr y neuadd eglwys gael eu diogelu rhag gohirio gormodol o ran cwblhau'r gwaith (yn enwedig oherwydd y dalwyr prydles mae'n debyg sydd wedi cyflwyno'r cynnig). Os gwyddys ymlaen llaw y bydd gwaith adeiladu yn digwydd, bydd y Cynllun sy'n awdurdodi'r brydles yn ei wneud yn ofynnol iddynt gwblhau'r gwaith o fewn tair blynedd.

*Beth sy'n digwydd ar
ddiwedd y brydles?*

25. Os yw'r neuadd bresennol i gael ei dymchwel ac mae un arall yn cael ei hadeiladu gan y dalwyr prydles, bydd angen i'r brydles gynnwys darpariaethau arbennig am y neuadd newydd. Er mwyn diogelu eu buddiannau eu hunain, dylai ymddiriedolwyr neuaddau eglwysy geisio cyngor cyfreithiol cyn cychwyn ar brydles o'r fath. Mae'n rhaid iddynt hefyd fodloni eu hunain fod gan y dalwyr prydles yr adnoddau ariannol i gwblhau'r project.

26. Mewn rhai achosion gall gwaith adeiladu sylweddol gael eu cynnig ar ôl i'r brydles gael ei rhoi. Os nad yw ymddiriedolwyr y neuadd eglwys yn gwrthwynebu, rydym yn barod i gynnwys darpariaeth yn y Cynllun sy'n caniatáu amrywio telerau'r brydles os ceir gwariant sylweddol ar ailadeiladu, atgyweiriadau neu foderneiddio gan y dalwyr prydles ar ôl i'r brydles gael eu rhoi.

27. Yn fuan cyn diwedd y brydles bydd angen i ymddiriedolwyr y neuadd eglwys ystyried y defnydd o'r eiddo yn y dyfodol. Fel rheol bydd tri dewis.

- Os oes angen y neuadd eglwys eto i'w defnyddio at ddibenion eglwysig yn unig, ni ddylid rhoi prydles bellach a dylai ymddiriedolwyr y neuadd eglwys gymryd rheolaeth o'r eiddo.
- Os oes angen defnydd achlysurol neu reolaidd at ddibenion eglwysig o hyd, fel arfer ni fydd rheswm pam na ellir rhoi prydles newydd ar ôl i ni awdurdodi'r cynigion newydd trwy Gynllun pellach.
- Os nad oes angen y neuadd o gwbl mwyach ar gyfer dibenion eglwysig, dylid ei gwerthu (neu ei gosod ar rent farchnad lawn os yw'r ymddiriedolwyr yn cael eu

Beth yw'r berthynas rhwng ymddiriedolwyr y neuadd eglwys a'r dalwyr prydles?

cynghori i wneud hyn) gan fod ymddiriedolaethau'r eglwys wedi methu (gweler paragraff 30 isod).

28. Yn gyfreithiol, bydd y berthynas rhwng ymddiriedolwyr y neuadd eglwys a'r dalwyr prydles ar ffurf landlord a thenant, a dylai fod ar sail busnes.

29. Os yw'r daliwr prydles yn elusen bydd rhaid i gorff ymddiriedolwyr gael ei sefydlu i ymgymryd â'r telerau a osodwyd uchod. Os nad ydynt wedi gwneud eisoes bydd angen iddynt gofrestru eu sefydliad gyda ni fel elusen ar wahân, yn gwbl wahanol i elusen y neuadd eglwys. Mewn sawl achos, os mai neuadd bentref neu ganolfan ieuenctid yw'r daliwr prydles, bydd pwyllgor rheoli eisoes mewn bodolaeth ac efallai y bu'n defnyddio adeiladau eraill ers cryn amser. Efallai y bydd yn briodol i ymddiriedolwyr y neuadd eglwys gael eu cynrychioli ar y pwyllgor rheoli hwnnw.

Rhan II: Neuaddau eglwysi nad oes mo'u hangen mwyach ar gyfer dibenion eglwysig

A ddylai'r ymddiriedolwyr werthu neu osod yr eiddo?

30. Dylent. Os nad oes angen neuadd eglwys o gwbl mwyach ar gyfer dibenion eglwysig gellir dweud bod ymddiriedolaethau'r elusen wedi methu. Dylai'r ymddiriedolwyr geisio cyngor proffesiynol ynglŷn â gwerthu'r neuadd (am y pris gorau y gellir yn rhesymol ei gael) neu ei gosod (am y rhent farchnad lawn). Bydd angen i ymddiriedolwyr y neuadd eglwys ystyried hefyd a oes unrhyw gyfyngiadau statudol ar werthu neu osod yr eiddo (e.e. eiddo a ddelir dan adran 6 Mesur (Pwerau) Cyngor yr Eglwys Blwyf 1956).

A oes unrhyw ofynion arbennig?

31. Oes. Cyn y gall yr ymddiriedolwyr werthu neu osod yr eiddo mae'n rhaid iddynt gael y pŵer i wneud hynny. Gall dogfen lywodraethol yr elusen gynnwys naill ai pŵer penodol neu bŵer a awgrymwyd i werthu neu osod, a gall amlinellu sut y dylai'r incwm o'r enillion gwerthu a fuddsoddiwyd neu'r rhent o'r eiddo gael eu defnyddio yn y dyfodol. Os nad yw'r ddogfen lywodraethol yn cynnwys pŵer o'r fath, bydd rhaid i ni wneud Cynllun er mwyn:

- rhoi'r pŵer i werthu neu osod yr eiddo i'r ymddiriedolwyr; a
- darparu ar gyfer sut y dylai incwm yr elusen gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion eglwysig eraill.

32. Unwaith y gwneir Cynllun, bydd yr ymddiriedolwyr yn gallu mynd ymlaen â'r weithred ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a nodwyd yn adran 36 Deddf 1993.

33. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau **Gwerthu Tir Elusennau (CC28)** a **Gwneud Cynllun (CC36)**.

34. Gall, mewn rhai achosion. Os yw dogfen lywodraethol elusen y neuadd eglwys yn rhoi awdurdod benodol i'r ymddiriedolwyr werthu neu osod yr eiddo yn y fath fodd, gallant fynd ymlaen gyda'r weithred heb gydymffurfio â'r gofynion statudol a nodwyd yn adran 36 Deddf 1993. Nid oes angen i'r ymddiriedolwyr ychwaith yn yr amgylchiadau hyn geisio ein caniatâd ar gyfer y weithred.

A all yr ymddiriedolwyr werthu neu osod y neuadd i elusen arall am lai na'i gwerth llawn?

35. Os nad yw'r ymddiriedolwyr yn sicr os yw'r ymddiriedolaethau yn awdurdodi'r weithred arfaethedig, dylent gysylltu â ni am gyngor. Gweler tudalennau 13-14 o'r canllaw hwn ar gyfer y dosbarthiad gwaith rhwng y swyddfeydd.

Ein nod yw gwneud ein cyhoeddiadau mor ddefnyddiol a darllenadwy ag y bo modd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â gwella'r cyhoeddiad hwn, ysgrifennwch at Reolwr yr Uned Cyhoeddiadau yn ein Swyddfa yn Taunton.

© Hawlfraint y Goron 2001. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn fanwl gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyddestun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar wefan yr adran:
www.charitycommission.gov.uk

Rhagor o Wybodaeth

Efallai y bydd o ddefnydd i chi droi at y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Elusennau:

- CC2 Elusennau a'r Comisiwn Elusennau
- CC3 Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusennau
- CC28 Gwerthu Tir Elusennau
- CC33 Prynu Tir
- CC36 Gwneud Cynllun

All of our publications are available in English. For information on availability please call our contact centre on 0870 333 0123.

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau, casetiau sain a fideo, gofynnwch am:

- CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

I gael copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau uchod, gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan:
www.charitycommission.gov.uk;
- archebu copi yn ystod oriau swyddfa trwy ein ffonio ni ar **0870 333 0123**;
- archebu copi y tu allan i oriau swyddfa trwy ffonio ein llinell archebu lleisbost ar **01823 345427**; neu
- ysgrifennu at y Swyddog Dosbarthu yn **Blwch Post 392, Newton Aycliffe, DL5 6YG**.

Nodiadau

Nodiadau